

*Cyfeirnod: 2112A2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2020

Archwiliad o berfformiad Cyngor Bro Morgannwg 2019-20

Tystysgrif

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2019-20, a hynny yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n ddigonol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, i gyflawni ei ddyletswyddau.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella, sy'n amlinellu ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau:

- wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; ac
- o ran bodloni unrhyw safonau perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir dan orchymyn Gweinidogion Cymru.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella, yn ogystal â'r wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

O dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, mae'n ofynnol i mi, archwilydd y Cyngor, gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a'r canllawiau statudol.

Cwmpas yr archwiliad

I ddibenion fy ngwaith archwilio, ac ar yr amod bod awdurdod wedi bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn bod yr awdurdod wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth, na ph'un a ellir cyflawni Cynllun Gwella'r Cyngor ai peidio. Bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygiad o'r cynllun i ganfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Euthum ati hefyd i asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi ystyried y canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu'n unig ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn llunio adroddiad a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, i nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd ar gyfer gwella.



Adrian Crompton

Arwchilydd Cyffredinol Cymru

CC: Julie James AS – Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Sara-Jane Byrne, Rheolwr Archwilio
Ian Phillips, Arweinydd Archwilio